# CYNNIG CYFOETH NATURIOL CYMRU AR GYFER NEWID SEFYDLIADOL –

# darnau ar gyfer cynulleidfaoedd allanol

## Crynodeb

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r achos dros newid a chafodd ei pharatoi i bawb yn y sefydliad. Bwriadwn ddefnyddio'r ddogfen i:

- ymgynghori'n ffurfiol â'r Undebau Llafur ynglŷn â'r cynigion
- cyfathrebu â phob cydweithiwr ynglŷn â'r cynigion
- ymgysylltu â'r rhai hynny y mae'r cynigion yn effeithio arnynt yn uniongyrchol

Caiff y sgyrsiau hyn eu harwain gan ein tîm gweithredol a'n tîm arwain, ochr yn ochr â'r Undebau Llafur, rhwng nawr a 13 Medi 2024. Rydym wedi cytuno ar yr amserlen hon â'r Undebau Llafur sydd wedi ein hannog i gydymffurfio â'r cyfnod ymgynghori o 45 diwrnod a ddiffiniwyd yng nghanllawiau ACAS, ond i fod yn ystyriol o'r angen i leihau'r cyfnod o ansicrwydd cymaint â phosibl i gydweithwyr.

Caiff yr ymatebion ffurfiol gan yr Undebau Llafur, ynghyd â'r adborth gan uwch-arweinwyr, eu hadolygu gan y tîm prosiect a chaiff cynnig diwygiedig ar gyfer newid

ei gyflwyno i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru i'w gymeradwyo ar 25 Medi. Unwaith y bydd y Bwrdd wedi cymeradwyo'r cynnig terfynol byddwn yn mynd ati i roi'r newidiadau ar waith. Ein bwriad yw cwblhau'r newidiadau erbyn 31 Mawrth 2025, sy'n rhoi amser i'r strwythur newydd fynd yn fyw o 1 Ebrill 2025. Nodir adolygiadau eraill, â therfynau amser hwy, yn y ddogfen.

Mae'r ddogfen wedi'i rhannu'n saith adran:

- Adran 1 – sy'n canolbwyntio ar y rheswm pam mae'r newid yn angenrheidiol
- Adran 2 – sy'n ymdrin â'r newidiadau arfaethedig o ran adnoddau Grwpiau Busnes a Chyfarwyddiaethau Gwasanaethau Galluogi.
- Adran 3 – y newid a welwch.
- Adran 4 – sy'n esbonio sut y caiff y newid ei roi ar waith a'r amserlen
- Adran 5 – sy'n disgrifio sut a phryd y byddwn yn ymgysylltu â chydweithwyr.
- Adran 6 – sy'n manylu ar y ffordd y byddwn yn hysbysu partneriaid am y newid.
- Adran 7 – sy'n rhoi manylion ynglŷn â sut y byddwn yn olrhain ac yn monitro cynnydd yn y byrdymor i'r tymor canolig.

## Rydym yn ceisio adborth penodol ar y canlynol:

Cwestiwn 1: A yw'r cynnig ar gyfer newid yn gyson â'r cyfeiriad strategol a nodwyd yn ein cynllun corfforaethol ac a yw'n mynd i'r afael â'r pwysau ariannol y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu hwynebu dros y tair blynedd nesaf o ystyried cyd-destun yr heriau ehangach i sefyllfa ariannol y sector cyhoeddus?

Cwestiwn 2: A yw'r camau a gymerwyd gennym i liniaru'r pwysau ariannol a lleihau'r risgiau o golli swyddi yn rhesymol?

Cwestiwn 3: A yw'r broses, yr amserlen ar gyfer newid a'r cymorth i'r staff yn glir?

Cwestiwn 4: A yw'n glir sut y caiff y sefyllfa ei monitro ar ôl i'r newidiadau gael eu rhoi ar waith er mwyn rheoli risgiau ac effeithiau?

# Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr

Annwyl Gydweithwyr

Flwyddyn yn ôl treuliais amser gyda llawer ohonoch yn y Digwyddiadau Ymgynnull pan drafodwyd y Cynllun Corfforaethol newydd “Byd Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda’n Gilydd” a'r heriau a'r cyfleoedd a oedd yn gysylltiedig â'i gyflawni. Ar y pryd, cydnabuom y byddai'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru newid ei ffocws er mwyn sicrhau ein bod yn cael cymaint o effaith â phosibl o ran cyflawni ein tri amcan llesiant i leihau llygredd i'r eithaf; helpu byd natur i wella; a gwella'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd. Trafodwyd hefyd y ffordd y byddai argaeledd adnoddau yn effeithio ar ba mor gyflym y gallem gyflawni'r cynllun.

Efallai y bydd yr egni, a'r angerdd a'r ymrwymiad a oedd yn amlwg yn y Digwyddiadau Ymgynnull hynny wedi pylu rywfaint yng ngoleuni llymach y pwysau ariannol a wynebwn, ond drwy eglurder y pwrpas a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol y byddwn yn gallu gweithio ein ffordd drwy'r rhain tuag at sefydliad cadarn ac ystwyth â mwy o ffocws a fydd yn mynd â ni hyd at 2030 a thu hwnt.

Nid ni sy'n gyfrifol am yr heriau ariannol a wynebwn, ac nid ydynt ychwaith yn unigryw i ni. Dros y blynyddoedd diwethaf nid yw ein cymorth grant craidd gan Lywodraeth Cymru wedi cynyddu er bod ein costau wedi cynyddu yn unol â'r chwyddiant uchel a welsom drwy'r economi gyfan. Ar yr un pryd, rydym wedi gweld arian newydd gan Lywodraeth Cymru am brosiectau penodol, sydd i'w groesawu, ond mae wedi'i glustnodi i sicrhau canlyniadau penodol, megis adfer mawndiroedd neu ansawdd dŵr. Yn ystod y flwyddyn ariannol diwethaf, bu'n rhaid i ni wneud arbedion sylweddol yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau ein bod yn mantoli'r gyllideb; y flwyddyn hon, rydym wedi lleihau ein cyllidebau nad ydynt yn ymwneud â'r staff yn sylweddol, a bydd rheolaethau ar ein cyllidebau staffio, megis rhewi ymarferion recriwtio a therfynu llawer o’n penodiadau cyfnod penodol, yn ein galluogi i ymdopi â'r pwysau ar ein cyllideb staffio gwerth £9m. Y flwyddyn nesaf, mae ein rhagolygon yn nodi y bydd y pwysau ar ein cyllideb staffio yn cynyddu i £13 miliwn (£9m + £4M) a bydd hyn yn cynyddu £4m arall yn 2026/27. Felly, bu'n rhaid edrych eto ar ein strwythur a nifer yr aelodau parhaol o staff.

Mae’r newidiadau yr ydym yn eu cynnig i’r Undebau Llafur yn dangos sut yr ydym yn bwriadu lleihau ein cyllideb o £13 miliwn ar gyfer 1 Ebrill 2025, drwy dynnu 265 o swyddi, y mae 108 o swyddi’n wag, o’n strwythur. Yn ogystal, mae nifer o swyddi gweigion a swyddi newydd (tua 200 ar hyn o bryd), yn enwedig mewn meysydd o'r sefydliad sydd â chyllid wedi'i neilltuo, megis adfer mawndiroedd a chefnogi gwaith Trydan Gwyrdd Cymru.  Ein nod yw cyfyngu ar nifer y diswyddiadau ond mae’n bosibl na fydd y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y swyddi hyn yn cyfateb i’r hyn sydd ei angen.

Fel llawer o sefydliadau eraill, gallem fod wedi gwneud toriad cyffredinol ym mhob rhan o'r sefydliad, ond o ystyried ffocws y Cynllun Corfforaethol a'r angen am fod yn gadarn ac yn ystwyth i ymateb i'r argyfyngau o ran llygredd, byd natur a'r hinsawdd, roeddem o'r farn y byddai'n well ceisio teilwra ein hymateb, gan roi terfyn ar rai gweithgareddau'n gyfan gwbl, a diogelu meysydd eraill. Mae hyn wedi gofyn am gryn

dipyn o waith caled ac ystyriaeth ddwys gan uwch-gydweithwyr ac aelodau'r Bwrdd. Er y bydd tipyn o wahaniaeth barn ynghylch sut y gallem wneud pethau'n wahanol, credaf fod yr hyn rydym yn ei gynnig i chi yn gynaliadwy ac y bydd yn cael yr effaith fwyaf posibl o ran ein hamcanion strategol yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael i ni.

Ni fydd byth amser perffaith i lansio ymgynghoriad o'r fath, a gwn y bydd llawer ohonoch yn mynd ar wyliau cwbl haeddiannol dros yr haf. Ond dylai hyd yr ymgynghoriad roi cyfle i bob aelod o'r staff drafod yr effaith arnyn nhw a'u timau â rheolwyr llinell, cynrychiolwyr undebol a chydweithwyr, ac i ddeall yr opsiynau a'r broses yn y dyfodol, cyn rhoi adborth. Mae cyfoeth o gymorth ar gael gan yr undebau llafur, cymorth i gyflogeion (ViVup), ein tîm lleisiant a'n rhwydwaith gwych o swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl, ac ni ddylai neb deimlo na all fynegi pryderon.

Hoffwn bwysleisio nad yw'r dewisiadau anodd y bu'n rhaid i ni eu gwneud i fantoli'r gyllideb y llynedd, ac i adeiladu llwyfan sefydlog ar gyfer y dyfodol, yn feirniadaeth o gwbl ar werth nac ansawdd y gwaith y mae pobl wedi bod yn ei wneud hyd yma yn y meysydd hynny lle rydym wedi penderfynu rhoi terfyn ar ein gweithgarwch neu ei leihau. Mae ein penderfyniadau yn seiliedig ar angen i ganolbwyntio ar y meysydd hynny lle y gallwn ni, a dim ond ni, gael yr effaith fwyaf posibl. Allwn ni ddim barhau i wneud popeth fel y gwnaethom yn y gorffennol.

Ar adegau anodd mae ein gwerthoedd yn allweddol i'r ffordd rydym yn gweithio ac yn ymddwyn fel sefydliad ac fel unigolion. Rydym yn feiddgar, yn ystyriol, yn ddyfeisgar ac yn perthyn. Gwelaf chi'n byw yn unol â'r gwerthoedd hyn bob dydd, a'r gwerthoedd hyn fydd yn ein cynnal dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Fy ymrwymiad i chi yw y byddwn yn ceisio lleihau'r angen am ddiswyddiadau i'r eithaf, ac, wrth wneud hynny, y byddwn yn parhau i'ch cefnogi drwy'r newidiadau hyn, yn brwydro dros adnoddau ychwanegol i'n galluogi i gyflawni ein Cynllun Corfforaethol, ac yn adeiladu sefydliad cadarn, modern a hyblyg y gallwn oll ymfalchïo ynddo, ac a fydd yn cyflawni dros bobl ac amgylchedd Cymru hyd at 2030 a thu hwnt.

# Adran 1: Pam mae angen i ni newid

## Ein cyfeiriad strategol

Wrth wraidd ein cynllun corfforaethol – Byd Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda’n Gilydd – y mae'r angen dybryd i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur, hinsawdd a llygredd. Mae'r weledigaeth, y genhadaeth a'r amcanion llesiant yn ein rhoi ar ben ffordd tuag at 2030 a'r heriau byd-eang mwy anodd hyd at 2050.

Mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cymryd yn pennu'r effeithiau a'r canlyniadau yr hoffem eu gweld erbyn 2030 ac maent yn uchelgeisiol ac yn ymestynnol. Rydym wedi rhoi ein ffocws ar y meysydd hynny lle rydym yn y sefyllfa orau i arwain a gwneud gwahaniaeth drwy ddefnyddio ein set unigryw o adnoddau a phwerau. Mae newid y taflwybrau presennol yn hollbwysig os yw Cymru am sicrhau adferiad natur, meithrin gallu cymunedau i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a lleihau llygredd i'r eithaf. Cyn bwysiced â hynny, mae'r cynllun yn pwysleisio sut y bydd ein llwyddiant ar y cyd yn dibynnu ar ymaddasu ac esblygu o ran y ffordd rydym yn gweithio. Ni fydd gwelliannau graddol yn newid y gromlin – bydd angen i ni achub ar bob cyfle i arloesi a gwella'r ffordd rydym yn gwneud pethau.

Mae'r cynllun corfforaethol yn gofyn i bob un ohonom, fel unigolion a thimau, i ganolbwyntio o ddifrif ar y pethau hynny sy'n cael yr effaith fwyaf o ran byd natur, yr hinsawdd a lleihau llygredd i'r eithaf. Mae gwneud y pethau hynny mai dim ond ni all eu gwneud, a'u gwneud yn dda, yn hollbwysig er mwyn gwireddu ein gweledigaeth lle y bydd byd natur a phobl yn ffynnu gyda'n gilydd. Yn ddi-os, mae gan bob un ohonom gymhelliant i wneud ein gorau i gyflawni ein cynllun. Mae ein brwdfrydedd a'n hymrwymiad i fyd natur yn amlwg i bawb. Ond nid gofyn i chi wneud mwy a mwy wrth i ni ymdrechu i wireddu'r weledigaeth hon yw'r ateb. Drwy ein harolwg Ein Llais a'r fforymau llesiant, rydych wedi gofyn i uwch-arweinwyr flaenoriaethu a symleiddio prosesau er mwyn rhyddhau adnoddau.

Rydym wedi ymrwymo i wella a thrawsnewid adnoddau a phrosesau i rymuso ffyrdd ystwyth a hyblyg o weithio, gan ryddhau adnoddau ar gyfer yr heriau mwy anodd hyd at 2030 a thu hwnt. Rydym eisoes wedi gosod nifer o gonglfeini, gan gynnwys y Rhaglenni Adfywio, Trawsnewid Pobl a TGCh gyda NRW2030 yn rheoli ac yn cydlynu'r rhaglenni trawsnewid hyn i sicrhau eu bod mor effeithiol â phosibl. Caiff rhagor o raglenni eu cyflwyno dros amser wrth i ni fynd ati'n ymwybodol i glustnodi cyllid i'w fuddsoddi.

Rydym eisoes wedi gwneud newidiadau sylweddol i'n polisïau a'n prosesau ynglŷn â phobl ac rydym newydd gytuno ar Bolisi Gweithio Ystwyth, wedi sefydlu'r Gronfa Adnoddau Hyblyg, wedi symleiddio'r broses recriwtio ac wedi cyflwyno'r System Rheoli Dysgu. Fel rhan o'n gwaith strategol ar gynllunio'r gweithlu, bydd mwy o ffocws ar y sgiliau sydd eu hangen arnom fel sefydliad ac yn 2024/25 rydym wedi cynyddu'r gyllideb dysgu a datblygu. Mae gwelliannau eraill hefyd yn dechrau cael eu cyflwyno drwy ein gwaith i gryfhau gwaith cynllunio busnes a datblygu metrigau perfformiad strategol a gweithredol i fonitro cynnydd.

# Ein sefydlogrwydd ariannol

Yn debyg i weddill y sector cyhoeddus yng Nghymru, rydym yn gweithredu mewn amgylchedd economaidd anodd. Mae chwyddiant uchel dros y 3-4 blynedd diwethaf wedi cynyddu ein costau, a lleihau ein cyllid mewn termau real. Yn syml, mae ein pŵer prynu yn sicrhau 20% yn llai nag ydoedd bedair blynedd yn ôl. Er y bydd y Llywodraeth newydd yn San Steffan yn debygol o gynnal adolygiad o wariant, yng Nghymru y tebyg yw na fydd y goblygiadau cyllidebol yn dod i'r amlwg tan chwe mis ar ôl Etholiad y Senedd ym mis Mai 2026 pan fyddwn yn cael ein Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer Tymor y Llywodraeth. Gan siarad yn blaen, y gorau y gallwn obeithio ei gael yw setliad cyllido arian parod digyfnewid yn 2025/26 a 2026/27.

Mae ein model cyllido yn gymhleth. Yn fras, rydym yn cael arian mewn pedair ffordd wahanol:

- Cymorth Grant Refeniw gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi aros ar lefel gymharol gyson, sef £74 miliwn ar gyfer refeniw nad yw'n ymwneud â llifogydd a £24.5 miliwn ar gyfer refeniw llifogydd. Dyma'r maes lle rydym yn wynebu'r prif bwysau ariannol. Rydym hefyd yn cael dyraniad o Gymorth Grant Cyfalaf a dim ond ar gyfer gwaith o natur cyfalaf y gellir ei ddefnyddio.

- Incwm rheoleiddio, sydd wedi cynyddu o ganlyniad i'n gwaith ar yr Adolygiad Strategol o Daliadau a Godir.

- Incwm arall, gan gynnwys incwm pren lle mae effaith natur anwadal prisiau pren bellach yn cael ei thanysgrifennu gan Lywodraeth Cymru o dan drefniant cyllido newydd.

- Grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru, i gyflawni rhaglenni gwaith penodol (rhai cyfalaf yn bennaf ond gyda rhai dyraniadau refeniw), sydd wedi cynyddu'n sylweddol o £4 miliwn yn 2019/20 i £34 miliwn yn 2023/24. Yn 2024/25, cawn gyllideb o £36m gyda'r rhan fwyaf ar gyfer buddsoddiad cyfalaf – dyrennir £7m ar gyfer gweithgareddau refeniw. Rydym hefyd yn cael grantiau gan Ewrop ac o dan Gronfa Treftadaeth y Loteri.

Mae pob un o'r ffrydiau cyllido hyn yn wynebu gwahanol fathau o bwysau ac ansicrwydd, ac rydym wrthi'n ceisio lliniaru'r rhain. Rydym yn ymgysylltu â thimau Nawdd a Chyllid Llywodraeth Cymru er mwyn symleiddio ein model cyllido lle y bo modd. Gan weithio drwy'r Grŵp Cynllunio ac Adnoddau, rydym yn datblygu rheolaethau newydd er mwyn sicrhau y caiff yr holl gyllid newydd ei gynllunio a'i reoli'n effeithiol, gan nodi'r costau llawn y mae pawb sy'n rhoi cymorth yn mynd iddynt.

Mae mantoli'r gyllideb bob blwyddyn ariannol yn un o brif ddyletswyddau'r Prif Weithredwr. Gan gydnabod y pwysau ar ein sefyllfa ariannol yn 2023/24 a 2024/25, gwnaethom gwblhau nifer o adolygiadau manwl er mwyn rheoli ein gwariant a'n risg ariannol, gan gynnwys:

- adolygiad cwbl gynhwysfawr o gyllidebau nad ydynt yn gyllidebau staff

- rheolaethau ar nifer y staff o ran recriwtio mewnol ac allanol

- adolygiad o'r holl benodiadau cyfnod penodol, gan gynnwys staff asiantaeth dros dro
- lleihau ein dibyniaeth ar weithwyr nad ydynt ar y gyflogres (contractwyr)
- symleiddio ein prosesau i gydweithwyr leihau eu horiau neu brynu gwyliau blynyddol ychwanegol

Bu'n hanfodol rhoi'r rheolaethau hyn ar waith i fantoli'r gyllideb yn 2023/24 er mwyn diogelu swyddi ein staff parhaol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod yr heriau a'r aberth mawr roedd hyn yn ei olygu i bawb ac rydym yn cydnabod yr effaith niweidiol ar gydweithwyr.

Ar ôl cyflwyno nifer sylweddol o ostyngiadau cyllidebol eraill, gwnaethom ddechrau blwyddyn ariannol 2024/25 gan wybod bod angen i ni reoli diffyg cyllidebol o tua £9 miliwn drwy reoli costau staff. Mae'r rheolaethau a gyflwynwyd yn 2023/24 wedi parhau mewn grym am eu bod yn ein rhoi ar ben ffordd i fantoli ein cyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.

Serch hynny, nid yw hyn yn ffordd gynaliadwy o weithredu o flwyddyn i flwyddyn, gan y bydd ein sylfaen gost, yn anochel, yn parhau i gynyddu mewn ymateb i chwyddiant, dyfarniadau cyflog yn y dyfodol, yr angen i fuddsoddi mewn seilwaith a chronfeydd wrth gefn i ymdrin â rhwymedigaethau cyfreithiol.

Yn syml iawn, heb unrhyw ymyriadau, bydd y bwlch cyllido o £9 miliwn yn cynyddu tua £4m yn 2025/26 i £13 miliwn, gyda £4 miliwn ychwanegol yn 2026/27. Mae hyn yn golygu y bydd y bwlch yn fwy na £17 miliwn erbyn 2026/27 os na chymerwn gamau.

Mae hyn yn amlwg yn anghynaliadwy. Mae'r sefyllfa ariannol gynyddol dynnach, yn enwedig o ran ein cyllid cymorth grant, yn golygu bod angen i ni wynebu'r heriau hyn yn awr, er mwyn ein rhoi ein hunain ar ben ffordd tuag at sefydlogrwydd ariannol a'r gallu i wrthsefyll newidiadau yn y dyfodol. Rydym yn ymrwymedig i gefnogi ein staff drwy'r cyfnod pontio hwn, gan sicrhau ein bod yn gweithredu ar y bwriad i flaenoriaethu, ac yn terfynu ac yn cwtogi ar weithgareddau drwy gysoni cynlluniau gwaith timau. Mae llesiant staff yn flaenoriaeth, a byddwn yn rhoi cymorth drwy gydol y cyfnod heriol hwn.

Mae’r newidiadau yr ydym yn eu cynnig i’r Undebau Llafur yn dangos sut yr ydym yn bwriadu lleihau ein cyllideb o £13 miliwn ar gyfer 1 Ebrill 2025, drwy dynnu 265 o swyddi, y mae 108 o swyddi’n wag, o’n strwythur. Yn ogystal, mae nifer o swyddi gweigion a swyddi newydd (tua 200 ar hyn o bryd), yn enwedig mewn meysydd o'r sefydliad sydd â chyllid wedi'i neilltuo, megis adfer mawndiroedd a chefnogi gwaith Trydan Gwyrdd Cymru.  Ein nod yw cyfyngu ar nifer y diswyddiadau ond mae’n bosibl na fydd y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y swyddi hyn yn cyfateb i’r hyn sydd ei angen.

Mae llawer o gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn wynebu heriau ariannol tebyg ac maent wedi gwneud, neu wrthi'n gwneud, doriadau, gan gynnwys rhaglenni diswyddo. Mae llawer yn mynd ati i wneud gostyngiadau ym mhob rhan o'r sefydliad yn ddiwahân er mwyn sicrhau arbedion. Rydym ninnau wedi ceisio targedu

gostyngiadau yn fwy drwy ddefnyddio ein dull blaenoriaethu i lywio penderfyniadau. Nid yw hyn yn gwneud pethau'n haws. Rydym yn cydnabod yr effaith y bydd newid mor fawr yn ei chael ar y sefydliad, ond ein gobaith yw y byddwn yn gallu adfer yn gyflym ar ôl y newid a rhoi mwy o ffocws ar gyflawni ein tri amcan llesiant.

## Sut y byddwn yn blaenoriaethu

Mae cysoni ein hadnoddau â'r cynllun corfforaethol wedi bod yn ganolog i'r ffordd rydym wedi blaenoriaethu, er mwyn sicrhau bod yr hyn a wnawn o ran natur, yr hinsawdd a lleihau llygredd i'r eithaf yn cael yr effaith fwyaf posibl. Mae hon yn ffordd dra gwahanol o weithredu o gymharu â'n ffyrdd gweithredu yn y gorffennol ac mae wedi cymryd mwy o amser am ein bod wedi cymryd gofal i sicrhau ein bod wedi cadw at ein bwriad o sicrhau mai'r cynllun corfforaethol sy'n llywio popeth a wnawn.

Rydym wedi cymhwyso nifer o agweddau: cysoni gweithgareddau a'u heffaith ar gyflawni ein hamcanion llesiant a'r camau i'w cymryd; ffactorau statudol sy'n sbarduno ein gwaith fel y'u nodwyd yn yr ymarfer llinell sylfaen; blaenoriaethau Llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth; a chymhwyso Egwyddor Datblygu Cynaliadwy fel y'i nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth yn rhoi arweiniad pwysig am ei fod yn nodi disgwyliadau'r Llywodraeth y dylem flaenoriaethu'r gwaith o gyflawni ein rhwymedigaethau statudol a'n swyddogaethau rheoleiddio wrth geisio cyflawni diben cyffredinol Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, gan gynnwys unrhyw gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru, ond mae hefyd yn nodi:

*Mae gweithgareddau nad ydynt yn statudol neu'n cael eu nodi fel blaenoriaeth yn y llythyr hwn yn ôl disgresiwn a dylid eu nodi ar gyfer arbedion effeithlonrwydd posibl er mwyn cyflawni eich amcanion cyffredinol.*

Drwy integreiddio'r agweddau gwahanol hyn, ein bwriad oedd:

- diogelu'r pethau hynny mai dim ond ni all eu gwneud, o ystyried ein set unigryw o adnoddau fel rheoleiddiwr amgylcheddol a chynghorydd statudol.
- diogelu ein gwaith ar fyd natur, o ystyried mai ni yw'r unig gorff cyhoeddus yng Nghymru sydd â'r cylch gwaith hwn.
- canolbwyntio ar y gweithgareddau hynny sy'n sicrhau buddiannau lluosog o ran byd natur, yr hinsawdd a lleihau llygredd i'r eithaf.
- adeiladu ar y buddsoddiad rydym eisoes wedi'i wneud i feithrin gallu mewn rhai meysydd.
- meithrin ein cynaliadwyedd a'n cadernid ariannol hyd at 2026/27.

Drwy ddefnyddio iaith gweithgarwch llinell sylfaen gwnaeth y Tîm Gweithredol gategoreiddio gweithgareddau yn wahanol grwpiau – terfynu, cwtogi, ailasesu parodrwydd i dderbyn risg, gwneud yn wahanol, cynnal a buddsoddi. Ar ôl i'r asesiad hwn gael ei gwblhau, daeth maint y bwlch ariannol yn gliriach ac yn hytrach na chymhwyso gostyngiad canrannol unffurf at bob tîm a chyfarwyddiaeth,

cymhwyswyd gostyngiad canrannol symudol at weithgareddau ym mhob categori. Oherwydd maint yr her ariannol, bu'n rhaid i ni gymhwyso targed arbedion at y gweithgareddau hynny a nodwyd yn rhai ‘cynnal’ ond ni roddwyd targed arbedion i'r gweithgareddau hynny a nodwyd yn rhai ‘buddsoddi’.

Yna, cafodd y gostyngiadau canrannol hyn eu cyfuno i lywio targed ar gyfer pob grŵp busnes a chyfarwyddiaeth gwasanaethau corfforaethol.

| Categori blaenoriaethu | Gostyngiad canrannol a gymhwyswyd |
|---|---|
| Terfynu | 100% |
| Cwtogi | 30% |
| Ailasesu risg | 17.5% |
| Gwneud yn wahanol | 12.5% |
| Cynnal | 6.15% |
| Buddsoddi | 0% |

Comisiynwyd y Tîm Arwain i ddatblygu cynnig ar gyfer newid ar gyfer pob Grŵp Busnes a Chyfarwyddiaeth Gwasanaethau Galluogi. Roedd angen i bob cynnig ymateb i'r targed ariannol, drwy ddefnyddio'r categoreiddiadau blaenoriaethu fel arweiniad, a hefyd ystyried dosbarthiad swyddi gwag o fewn y gwasanaeth. Drwy ddefnyddio cofrestrau risg grwpiau busnes, lleoedd a chyfarwyddiaethau, cafodd timau arwain y dasg o asesu effaith cynigion ar gyfer newid o safbwynt risg.

# Llywodraethu a Chraffu

Gwnaeth y Tîm Gweithredol roi'r dasg o ddatblygu ein dull corfforaethol o flaenoriaethu a chynghori ar roi mesurau ar waith i reoli'r pwysau ar gyllidebau i'r Grŵp Cynllunio ac Adnoddau, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaeth Tystiolaeth, Cynllunio a Thrwyddedu, Gweithrediadau, Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol, a Chyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, o dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaethol.

Mae'r Grŵp Cynllunio ac Adnoddau wedi craffu ar gynigion y comisiwn, gan asesu i ba raddau roeddent yn cyd-fynd â'r arweiniad ar dargedau a blaenoriaethu ochr yn ochr ag asesiad o'r effeithiau a'r risgiau, gan gynnwys ar ein risgiau strategol. Roedd cyfres o argymhellion i'r Tîm Gweithredol yn canolbwyntio ar addasiadau i'r targed ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol, Tystiolaeth, Stiwardiaeth Tir a Rheoli Perygl Llifogydd.

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei ddatblygu a chaiff ei ddiweddaru ar bob cam o'r broses weithredu

Drwy gymhwyso'r safbwyntiau gwahanol hyn, rydym wedi ceisio rhoi darlun integredig o'r sefydliad cyfan, gan edrych ar y dibyniaethau a'r synergeddau rhwng gwasanaethau a chyfarwyddiaethau er mwyn sicrhau ein bod yn osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Rydym wedi nodi'n benodol yr hyn y byddwn yn ei wneud a'r hyn na fyddwn yn ei wneud ar ôl y newid, er mwyn rheoli disgwyliadau a sicrhau bod yr arweiniad ar flaenoriaethu yn cael ei weithredu mewn gwirionedd a'i fod yn gyson â'r lefel is o adnoddau.

Rydym wedi rhoi diweddariadau rheolaidd i aelodau'r Bwrdd ar y cynigion ar gyfer newid, gan sicrhau eu bod yn gweld y risgiau a'r effeithiau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi craffu ar yr achos ariannol dros newid, ac mae'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid wedi ystyried sut i roi'r newid ar waith o safbwynt rheoli pobl.

# Adran 2: Ein cynigion ar gyfer newid

Rydym yn ymrwymedig o hyd i'n ffordd o weithio sy'n canolbwyntio ar Le a'r oruchwyliaeth sefydliadol dros y broses o ddarparu gwasanaethau o'r dechrau i'r diwedd gan staff Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu i mewn i'r gwasanaeth Gweithrediadau drwy'r chwe Grŵp Busnes. Bydd swyddogaethau a gyflawnir gan wasanaethau corfforaethol yn parhau i gael eu cyflawni'n ganolog er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru eu cyrraedd.

Mae'r cynigion ar gyfer newid wedi cael eu paratoi ar gyfer y chwe Grŵp Busnes, gan gwmpasu'r gwasanaeth o'r dechrau i'r diwedd a ddarperir gan staff Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu i'r gwasanaeth Gweithrediadau, ac maent yn cynnwys:

- Tystiolaeth
- Rheoli Adnoddau Naturiol
- Stiwardiaeth Tir
- Rheoli Perygl Llifogydd
- Rheoli Digwyddiadau
- Rheoleiddio

Mae cynigion ar gyfer Gwasanaethau Galluogi wedi cael eu paratoi ar lefel Cyfarwyddiaeth ar gyfer:

- Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol
- Strategaeth a Datblygu Corfforaethol

- Cyllid a Gwasanaethau Galluogi

Mae'r cynigion yn canolbwyntio ar y canlynol:

- cau'r bwlch cyllido o £13 miliwn yn 2025/26;
- ymdrin â'r pwysau pellach o tua £4 miliwn yn 2026/27

# Adran 3 Y newid y byddwch yn ei weld – y sefydliad ar ei newydd wedd

Mae newid yn rhan anochel o'n holl fywydau gwaith. Mae ein ffyrdd o weithio yn ymaddasu ac yn esblygu drwy'r amser mewn ymateb i wyddoniaeth newydd, technolegau newydd, argyfyngau ariannol, blaenoriaethau gwleidyddol newydd a newidiadau mewn gwerthoedd cymdeithasol ac ymddygiadau.

Yr hyn sy'n wahanol yn awr yw maint yr argyfyngau natur a hinsawdd a fydd yn sbarduno newid cymdeithasol mawr os nad eir i'r afael â nhw. Mae ein hymrwymiad a'n brwdfrydedd personol a phroffesiynol dros natur ac amgylchedd Cymru yn golygu ein bod yn gweld ac yn deall maint yr her a'r angen am weithredu. O ystyried y newid mawr y mae'n rhaid digwydd gall hynny fod yn ddigon i lethu pobl. Y ffordd orau, a'r unig ffordd y gallwn ni fel sefydliad helpu cydweithwyr i fynd drwy hyn yw drwy flaenoriaethu fel y bydd yr adnoddau sydd gennym yn canolbwyntio ar y pethau hynny a fydd yn cael yr effaith fwyaf. Mae'n hanfodol ein bod yn gosod y cyfeiriad fel y bydd ein ffocws, yn unigol ac ar y cyd, ar y pethau hynny sy'n cael yr effaith fwyaf o ran byd natur, y newid yn yr hinsawdd a lleihau llygredd i'r eithaf.

Rydym yn ymrwymedig o hyd i'n ffordd o weithio sy'n canolbwyntio ar Le a'r oruchwyliaeth sefydliadol dros y broses o ddarparu gwasanaethau o'r dechrau i'r diwedd gan staff Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu i mewn i'r gwasanaeth Gweithrediadau drwy'r chwe Grŵp Busnes.

Dros y 12-18 mis nesaf, bydd yn rhaid i ni newid ein ffyrdd o weithio, rhoi terfyn ar rai o'n gweithgareddau a chwtogi ar eraill ac addasu ac adeiladu rhwydweithiau a phartneriaethau newydd nid yn unig rhwng timau Cyfoeth Naturiol Cymru ond gydag eraill hefyd.